



CRAFFU

Canllaw Cyfranogi i'r Cyhoedd



Siarad Cyhoeddus mewn Cyfarfod Pwyllgor Craffu

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cydnabod y gall y cyhoedd wneud cyfraniad pwysig a bod yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth. Felly mae'r Cyngor yn annog pob trigolyn i gymryd rhan weithredol yn y broses Craffu yn y Fro.

Mae'r Canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth am yr hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl pan fyddant yn mynychu cyfarfod Pwyllgor Craffu.

Dim ond eitemau busnes cyffredinol y mae'r Pwyllgorau Craffu yn eu hystyried y mae'r Canllaw hwn yn eu trafod. Pan fo mater o bryder/buddiant cyhoeddus mawr yn codi, bydd trefniadau ar wahân yn berthnasol.



Cynnwys

1	Beth yw Craffu?	1
2	Ble a phryd y mae'r Pwyllgorau yn cwrdd?	2
3	Sut rydw i'n lleisio fy marn?	2
4	Pwy all siarad?	2
5	Am faint y mae'n rhaid i mi siarad?	3
6	Am beth allaf siarad yn y cyfarfod?	3
7	Beth na allaf siarad amdano yn y cyfarfod?	3
8	Presenoldeb yn y cyfarfod?	4
9	Ble rydw i'n eistedd?	4
10	Pryd fyddaf yn siarad yn y cyfarfod?	5
11	A allaf ddosbarthu dogfennau ategol/cynorthwyon gweledol?	5
12	Ar ôl i mi siarad	5
13	Sut mae cofrestru i siarad?	6
14	Sylwadau ysgrifenedig	7
15	Gwybodaeth ychwanegol	7



I Beth yw Craffu?

- 1.1 Mae proses Craffu'r Cyngor yn rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ("Cynghorwyr") archwilio'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu ac i ofyn cwestiynau ynghylch sut y mae'n rhaid gwneud penderfyniadau. Rhaid i Bwyllgorau Craffu hefyd wneud trefniadau i wrando ar farn y cyhoedd a'r gymuned. Un o rolau'r Pwyllgor Craffu yw ystyried y farn honno wrth ystyried y mater perthnasol ac, os ystyrir ei fod yn briodol, i drosglwyddo'r farn honno at Gabinet y Cyngor i'w ystyried.
- 1.2 Mae'n bwysig bod yn ymwybodol nad yw Pwyllgorau Craffu yn ymdrin ag ymholiadau, pryderon neu gwynion unigol. Yn ogystal, dylech gadw mewn cof mai cyfarfod a gynhelir yn gyhoeddus yw cyfarfod Pwyllgor Craffu ond ni d Cyfarfod Cyhoeddus yw e.
- 1.3 Mae gan y Cyngor bum Pwyllgor Craffu:

Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol

Mae'r Pwyllgor Craffu hwn yn ymdrin â gwaith mewnol y Cyngor a'i gyllid a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Amgylchedd ac Adfywio

Mae'r Pwyllgor Craffu hwn yn ymdrin â Rheoli Gwastraff, Cynnal a Chadw Priffyrdd, Cynllunio (ond nid materion fel ceisiadau cynllunio), Trafnidiaeth a Datblygu Economaidd.

Cartref a Chymunedau Diogel

Mae'r Pwyllgor Craffu hwn yn ymdrin â Thai'r Cyngor a gwaith cynnal a chadw cysylltiedig. Tai'r Sector Preifat, Diogelwch Cymunedol, Trosedd ac Anhrefn (gan gynnwys y Gwasanaethau Troseddu Ieuenctid) a gweithrediadau'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

Dysgu a Diwylliant

Mae'r Pwyllgor Craffu hwn yn ymdrin â'r holl faterion yn ymwneud ag Ysgolion (sy'n cynnwys Gwella Ysgolion, Addysg ôl 16, Addysg Gymunedol), Gwasanaethau Ieuenctid, y Gwasanaeth Llyfrgell, Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a Datblygu Celfyddydau.

Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol

Mae'r Pwyllgor Craffu hwn yn ymdrin â Gwasanaethau Oedolion, fel Cartrefi Gofal, Gwasanaethau plant a phobl ifanc (e.e. Gwasanaeth Mabwysiadu), Hamdden, Parciau, Chwaraeon a Chwarae.

2 Ble a phryd y mae'r Pwyllgorau Craffu'n cwrdd?

- 2.1 Mae pob un o bum Pwyllgor Craffu y Cyngor yn cwrdd tua 10-12 o weithiau y flwyddyn. Fel arfer bydd cyfarfodydd yn dechrau am 6:00pm ac yn cael eu cynnal yn Siambr Cyngor y Swyddfeydd Dinesig yn y Barri. Fodd bynnag, yn achlysurol, mae'n bosibl y caiff lleoliad arall ei ddefnyddio (e.e. gall y Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Diwylliant gwrdd mewn ysgol). Mae amserlen o holl gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu ar gyfer y Flwyddyn Ariannol hon ar gael ar wefan y Cyngor yn y ddolen ganlynol: http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/council/minutes,_agendas_and_reports/minutes,_agendas_and_reports.aspx

3 Sut rydw i'n lleisio fy marn?

- 3.1 Gallwch leisio eich barn mewn cyfarfod Pwyllgor Craffu mewn dwy ffordd. Gallwch ofyn i siarad mewn cyfarfod Pwyllgor Craffu neu fel arall gallwch anfon eich sylwadau ysgrifenedig. Gellir gweld y weithdrefn ar gyfer cyflwyno sylwadau ysgrifenedig ym mharagraff 14 ar dudalen 7 y Canllaw hwn.

4 Pwy all siarad?

- 4.1 Mae unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio ym Mro Morgannwg ac sydd wedi cofrestru yn gymwys i siarad mewn cyfarfod un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor wedi'i drefnu.
- 4.2 Nid sesiwn cwestiwn ac ateb yw'r cyfarfod a gofynnir i siaradwyr wneud datganiadau sy'n berthnasol i'r pwnc ac i osgoi ailadrodd.
- 4.3 Cyfyngir ar nifer y siaradwyr cyhoeddus a bydd hyn yn dibynnu ar nifer y ceisiadau a wneir.
- 4.4 Os bydd person dan 16 oed yn dymuno siarad mewn cyfarfod Pwyllgor Craffu, rhaid iddo fod yng nghwmni oedolyn.



5 Am faint y mae'n rhaid i mi siarad ?

- 5.1 Ar gyfer pob eitem ar yr agenda, caniateir i aelodau o'r cyhoedd siarad am **uchafswm o 15 munud** (ar yr amod eu bod wedi cofrestru i siarad). Os ceir ceisiadau lluosog i siarad, fel arfer bydd y Cadeirydd yn caniatáu i hyd at 5 siaradwr unigol fesul eitem ar yr agenda (h.y. 3 munud y siaradwr). Caiff siaradwyr unigol sydd wedi cofrestru 3 munud yn unig mewn perthynas ag eitem ar yr agenda.

Nid yw'r Canllaw hwn yn berthnasol i Aelodau Etholedig Bro Morgannwg, gan eu bod yn destun gweithdrefnau Cyfansoddiad y Cyngor, sy'n rhoi hawl iddynt siarad gyda chaniatâd y Pwyllgor.

6 Am beth allaf siarad yn y cyfarfod?

- 6.1 Rhaid i aelod o'r cyhoedd sy'n siarad am eitem ar yr agenda siarad am yr eitem y mae wedi'i gofrestru i siarad amdano ac ni all sôn am unrhyw eitemau eraill ar yr agenda neu fusnes amherthnasol. Dylech sicrhau:
- Bod eich sylwadau'n glir ac yn gryno ac yn uniongyrchol berthnasol i'r adroddiad yr ydych wedi gofyn i siarad amdano;
 - Eich bod yn osgoi ailadrodd pwyntiau wedi'u gwneud yn flaenorol gan siaradwyr cyhoeddus eraill:
 - Cyfyngir eich barn i fanteision ac anfanteision yr adroddiad a'ch bod yn amlinellu sut y gallai'r adroddiad effeithio ar y ffordd y darperir y gwasanaethau ar gyfer grwpiau penodol o ddefnyddwyr yn y Fro; a
 - Nad yw eich sylwadau'n ddifenwol, gwahaniaethol neu'n cynnwys iaith ymosodol

7 Beth na allaf siarad amdano yn y cyfarfod?

- 7.1 Mae hawl gan y cyhoedd i siarad am yr holl eitemau ar yr agenda ac eithrio'r canlynol:
- Ymddiheuriadau, Datgan Buddiannau a Chofnodion:
 - Os yw eitem ar yr agenda wedi'i thynnu'n ôl;

- Unrhyw eitem ar yr agenda nad yw gydag adroddiad ysgrifenedig neu unrhyw eitem ar yr agenda y mae'r Cadeirydd wedi arfer ei ddisgresiwn i dynnu hawl i siarad cyhoeddus yn ôl ar ei chyfer, e.e. cyflwyniad;
 - a Pan fo'r Pwyllgor Craffu yn ystyried eitemau cyfrinachol, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r holl aelodau o'r cyhoedd a'r wasg i adael yr ystafell gyfarfod.
- 7.2 Nid yw'r hawl i siarad yn cynnwys yr hawl i ofyn unrhyw gwestiynau i unrhyw Aelod Etholedig, Swyddog y Cyngor, mynychwyr wedi'u gwahodd neu unrhyw siaradwr arall.
- 7.3 Bydd gan Gadeirydd y Pwyllgor y disgrisiwn i stopio siaradwr cyn diwedd ei amser penodedig os yw'r siaradwr, ym marn y Cadeirydd, yn gwneud unrhyw sylwadau sy'n, neu sy'n ymddangos i fod yn ddifennol, wahaniaethol, yn cynnwys iaith droseddol, yn groes i'r gweithdrefnu wedi'u nodi yn y protocol siarad cyhoeddus, yn amherthnasol i'r eitem ar yr agenda sy'n cael ei ystyried neu sy'n gyfwerth ag ymddygiad nad yw'r briodol ar gyfer cyfarfod Pwyllgor Craffu.

8 Presenoldeb yn y Cyfarfod

- 8.1 Gofynnir i aelodau o'r cyhoedd sydd wedi cofrestru i siarad gyrraedd 15 cyn dechrau'r cyfarfod wedi'i drefnu a dylent roi gwybod i'r Swyddog Gwasanaethau Craffu a Democraidaidd eu bod wedi cyrraedd.

9 Ble rydw i'n eistedd?

- 9.1 Bydd y Swyddog Gwasanaethau Craffu a Democraidaidd yn eich rhoi chi i eistedd yn y lle perthnasol ac ar yr adeg briodol, bydd y Cadeirydd yn gofyn i chi symud i le penodol yn y Siambr Cyngor lle y gall pawb eich gweld a'ch clywed yn glir.



10 Pryd fyddaf yn siarad yn y cyfarfod?

- 10.1 Fel arfer, ystyrir eitemau ar yr agenda gyda siarad cyhoeddus yn gyntaf a byddant yn dilyn y fformat canlynol:
- 1 Swyddog Cyfrifol o'r Cyngor i gyflwyno'r adroddiad;
 - 2 Os yw'n berthnasol, yr Aelod Cabinet sy'n dal y portffolio isiarad â'r Pwyllgor Craffu;
 - 3 Aelodau o'r cyhoedd sydd wedi cofrestru i siarad;
 - 4 Aelodau Etholedig eraill (h.y. nid aelodau o'r Pwyllgor Craffu); a
 - 5 Aelodau o'r Pwyllgor Craffu.

11 A allaf ddsbarthu dogfennau ategol/cynorthwyon gweledol?

- 11.1 Ni allwch ddsbarthu unrhyw ddogfennau ategol yn y cyfarfod neu ddefnyddio unrhyw fath o gynorthwyon gweledol, megis ffotograffau neu ddiagramau. Mae'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru i siarad neu wneud cyflwyniadau ysgrifenedig wedi'i greu i roi gwybodaeth i'r Pwyllgor Craffu o flaen llaw am y cyfarfod er mwyn galluogi Aelodau i ystyried y pwyntiau wedi'u codi'n llawn.

12 Ar ôl i mi siarad.

- 12.1 Ar ôl i chi orffen siarad, efallai y bydd Cadeirydd y Pwyllgor a/neu Aelodau'r Pwyllgor yn gofyn cwestiynau i chi i egluro rhai o'ch sylwadau. Ni ddylech ddechrau trafodaeth gydag Aelodau'r Pwyllgor, gan nad ymholiad cyhoeddus yw hwn; ond cyfarfod y Cyngor yn lle. Yna gofynnir i chi ddychwelyd i'ch sedd.
- 12.2 Yna bydd y Pwyllgor yn trafod y mater ymhellach cyn gwneud unrhyw argymhellion i'r Cabinet (neu Uwch Swyddog gyda chyfrifoldeb dirprwyedig) y mae'n eu hystyried yn briodol.
- 12.3 Os bydd y Cadeirydd yn dweud nad oes ymholiadau pellach ac os dymunwch, cewch adael y cyfarfod.

D.S. Er y bydd y Pwyllgor Craffu yn ystyried sylwadau wedi'u gwneud gan siaradwyr cyhoeddus ac Aelodau etholedig eraill wrth ystyried materion a llunio argymhellion, mae ganddo ddyletsydd i ffurfio ei gasgliad ei hun fel y mae'n ei ystyried yn briodol.



13

Sut mae cofrestru i siarad?

- 13.1 Mae'r agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor, 5 diwrnod clir cyn dyddiad y cyfarfod. Mae copiâu caled hefyd ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio yn y Swyddfeydd Dinesig.
- 13.2 Mae'r ffurflen gais briodol i gofrestru i siarad ar gael ar wefan y Cyngor 08:30am y diwrnod canlynol. Dylai aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno cofrestru i siarad mewn cyfarfod o'r Pwyllgorau Craffu y Cyngor wneud cais drwy lenwi'r ffurflen gais briodol erbyn 4.00pm ar ddydd diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.
(Er enghraifft, os bydd y cyfarfod yn disgyn yn ar ddydd Llun, ceisiadau i ddod i law erbyn 4.00 pm ar y dydd Gwener blaenorol siarad. Os bydd y cyfarfod yn disgyn ar ddydd Mawrth geisiadau ddod i law erbyn 4.00pm ar dydd Llun i siarad.)
- 13.3 I gofrestru eich diddordeb, dylech lenwi'r ffurflen gais priodol, y gallwch ei chael trwy'r glicio'r ddolen isod:
http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/council/scrutiny/more_about_scrutiny.aspx
- Fodd bynnag, os nad oes modd i chi ddefnyddio'r rhyngwrwyd, gallwch ffonio'r Gwasanaethau Craffu a Democrataidd ar 01446 709413 i gofrestru eich diddordeb neu i archwilio'r papurau.
- 13.4 Rhaid i geisiadau gynnwys manylion am yr eitem ar yr agenda a'r Pwyllgor Craffu perthnasol yr hoffech siarad ynddo.
- 13.5 Byddwn yn ymdrin fel arfer yn geisiadau a dderbynnir gyda yn y drefn y maent wedi eu derbyn.
- 13.6 Rhoddir gwybod i'r holl rai hynny sydd wedi cofrestru i siarad os yw eu cais i siarad wedi'i dderbyn cyn y cyfarfod naill ai ar e-bost neu ar y ffôn.



14 Sylwadau Ysgrifenedig

- 14.1 Rydym yn gwerthfawrogi y gallwch gael trafferth siarad â'r Pwyllgor mewn person. Os felly y mae, rydym yn croesawu cyflwyniadau ysgrifenedig o'ch barn/sylwadau a gallwch eu hanfon:

Ar E-bost i: Democratic@valeofglamorgan.gov.uk

Neu i'r cyfeiriad post canlynol:

Gwasanaethau Craffu a
Democrataidd
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Heol
Holltwn
Y BARRI
CF63 4RU

Dylai'r Gwasanaethau Craffu a Democrataidd dderbyn sylwadau ysgrifenedig erbyn 4.00pm ar y diwrnod gwaith cyn y cyfarfod Pwyllgor Craffu.

(Er enghraifft, os mai ar ddydd Llun yw'r cyfarfod, rhaid derbyn sylwadau erbyn 4.00pm ar y dydd Gwener cynt. Os mai ar ddydd Llun yw'r cyfarfod, rhaid derbyn sylwadau erbyn 4.00pm ar y dydd Llun cynt.)

15 Gwybodaeth Ychwanegol

- 15.1 Caniateir ffilmio a recordio cyfarfodydd dim ond os yw caniatâd wedi'i gael cyn y cyfarfod yn ysgrifenedig gan y Rheolwr Gyfarwyddwr.
- 15.2 Dylai siaradwyr roi gwybod i'r Gwasanaethau Craffu a Democrataidd o flaen llaw os oes ganddynt unrhyw anghenion neu ofynion arbennig.
- 15.3 Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch siarad cyhoeddus mewn cyfarfod un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor, neu gyflwyno sylwadau ysgrifenedig, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Craffu a Democrataidd ar y rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost isod.

Rhif Ffôn y Gwasanaethau Democrataidd: 01446709413

E-bost: Democratic@valeofglamorgan.gov.uk



**Gwasanaethau Craffu a
Democrataidd Cyngor Bro
Morgannwg**

**Swyddfeydd Dinesig, Heol
Holltwn
Y BARRI CF63
4RU**

www.valeofglamorgan.gov.uk